# Polisi Diogelwch Ar-lein

# Ysgol Dewi Sant

Pennaeth: Mair Evans

Cadeirydd y Llywodraethwyr: John Evans

## 1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn nodi dulliau a gweithdrefnau gorau'r ysgol ar gyfer sicrhau diogelwch digidol disgyblion, staff a rhieni. Ein nôd yw sicrhau bod pob plentyn yn defnyddio technoleg yn gyfrifol ac yn ddiogel.

## 2. Amcanion y Polisi

• Diogelu disgyblion rhag risgiau ar-lein.

• Hyfforddi staff a disgyblion ynghylch diogelwch ar-lein.

• Hysbysu rhieni am arferion diogelwch ar-lein.

• Sefydlu rheolau clir ar gyfer defnyddio technoleg yn yr ysgol.

## 3. Defnydd Derbyniol o'r Rhyngrwyd

• Bydd pob disgybl yn defnyddio'r rhyngrwyd at ddibenion addysgol yn unig.

• Bydd mynediad at wefannau amhriodol yn cael ei rwystro gan y Cyngor.

• Ni ddylai disgyblion na staff rannu gwybodaeth bersonol ar-lein.

## 4. Defnydd o Ddyfeisiau Personol

• Nid yw disgyblion yn cael defnyddio ffonau symudol neu unrhyw ddyfais bersonol yn ystod amser ysgol, oni bai bod trefniant arbennig wedi'i wneud.

• Dylai dyfeisiau personol staff gael eu defnyddio'n briodol ac yn unol â pholisi'r ysgol.

## 5. Diogelwch ar Gyfryngau Cymdeithasol

• Nid yw disgyblion yn cael defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn yr ysgol.

• Dylai staff gynnal ffiniau proffesiynol wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ac osgoi rhyngweithio â disgyblion ar blatfformau personol.

- Bydd yr ysgol yn hyfforddi disgyblion am y risgiau sy’n gysylltiedig â defnyddio cyfryngau cymdeithasol.

6. Seiberfwlio

- Mae seiberfwlio yn cael ei ystyried yn ddifrifol a bydd unrhyw achos yn cael ei ymchwilio’n drylwyr.
- Dylai disgyblion adrodd unrhyw fwlio digidol i athro neu aelod o staff.
- Bydd yr ysgol yn dysgu disgyblion sut i ymateb i seiberfwlio ac ymddygiad amhriodol ar-lein.

7. Diogelu Data a Phreifatrwydd

- Bydd gwybodaeth bersonol disgyblion a staff yn cael ei diogelu yn unol â rheoliadau GDPR.
- Ni ddylai staff na disgyblion rannu manylion personol dros e-bost neu ar-lein heb ganiatâd.

8. Hyfforddiant a Gwybodaeth

- Bydd yr ysgol yn darparu sesiynau hyfforddiant ar ddiogelwch ar-lein i staff a disgyblion.
- Anogir rhieni i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy’n hyrwyddo diogelwch ar-lein.

9. Gorfodi ac Cosbau

- Bydd unrhyw dorri ar reolau diogelwch ar-lein yn cael ei ymchwilio a gall arwain at gamau priodol yn unol â pholisi disgyblu’r ysgol.
- Bydd unrhyw ddefnydd amhriodol o dechnoleg yn cael ei fonitro a’i adrodd.

10. Adolygu'r Polisi

• Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn berthnasol i ddatblygiadau technolegol newydd.

• Mae diogelwch ar-lein yn gyfrifoldeb ar y cyd i bawb yn yr ysgol. Trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn greu amgylchedd diogel a chefnogol i bob plentyn ddysgu ac archwilio'r byd digidol mewn modd diogel.

11. Gwefannau Defnyddiol

Child Exploitation and Online Protection (CEOP) - https://www.ceop.police.uk/Safety-Centre/

Thinkuknow – https://www.ceopeducation.co.uk/4_7/ and https://www.ceopeducation.co.uk/parents/articles/band-runner/

UK Safety Internet Centre - https://saferinternet.org.uk

WiseKids - https://wisekids.org.uk/wk/

Pennaeth: ________________ Dyddiad: _________________

Cadeirydd y Llywodraethwyr: ____________ Dyddiad: ___________________